

## Wyth awgrym ar gyfer ysgrifennu traethodau da

SgiliauAber/AberSkills, Prifysgol Aberystwyth (2012-2019)

<http://www.aber.ac.uk/aberskills>

---

### 1. Atebwch y cwestiwn

Mae angen sicrhau eich bod chi wedi dehongli'r cwestiwn yn gywir. Pethau i'w nodi:

- **Geiriau allweddol sy'n ymwneud â chynnwys** ac sy'n perthyn i bwnc neu thema'r dasg.
- **Geiriau sy'n ymwneud â phroses** sy'n rhoi cyfarwyddyd (fel arfer berfau).
- **Agweddau amrywiol** ar y cynnwys neu'r broses, sy'n rhoi dewis o enghreifftiau neu bynciau.
- **Amwysedd** neu elfennau o'r cwestiwn sydd ddim wedi'u diffinio'n glir neu sy'n gallu cael eu dehongli mewn mwy nag un ffordd.

### 2. Gwnewch gynllun cyn ichi ddechrau ysgrifennu ac wrth ddarllen

**Cynllunio:** mae'r cynllun yn dechrau gyda'ch dehongliad eich hunain o'r cwestiwn. Mae angen:

- Adnabod prif bwnc y cwestiwn.
- Adnabod eich amcanion: nod neu ganlyniad eich trafodaeth.
- Adnabod sut byddwch chi'n ymchwilio a thrafod y pwnc dan sylw.
- Meddwl am faint o adrannau neu gamau byddwch chi eu hangen i gyrraedd y nod/canlyniad.
- Gosod terfyn geiriau ar gyfer pob adran er mwyn osgoi ysgrifennu gormod. (Dylai hyn fod yn 10% yn llai na chyfanswm y terfyn geiriau er mwyn gadael lle i ymhelaethu ar syniadau).

Cadwch eich cynllun mewn cof wrth ysgrifennu, ond byddwch yn hyblyg ac yn barod i'w addasu wrth ichi ddod o hyd i syniadau newydd.

**Darllen:** gan ddefnyddio'r prif bwnc a rhestr ddarllen y modiwl, adnabyddwch beth rydych chi'n mynd i'w ddarllen.

- Gwnewch yn siŵr eich bod chi'n gweithio gyda ffynonellau cynradd ac eilaidd (*primary and secondary sources*) addas (llyfrau ac erthyglau mewn cyfnodolion academiaidd yn bennaf).
- Dechreuwch ysgrifennu eich llyfryddiaeth wrth ichi ddarllen. Mae'n haws dileu gweithiau dydych chi ddim yn cyfeirio atyn nhw nag ysgrifennu llyfryddiaeth lawn ar y diwedd.
- Peidiwch â defnyddio deunydd amheus ar y we. Os dydych chi ddim yn gwybod beth yw enw'r awdur a'r dyddiad/leoliad cyhoeddi, dydych chi ddim yn gwybod pwy yw'r awdur a ddylech chi ddim defnyddio'r deunydd.
- Darllenwch o gwmpas y prif bynciau sy'n berthnasol i'r cwestiwn. Does dim angen ymdrin â hanes llawn neu ddatblygiad llawn y pwnc dan sylw.

### 3. Cyflwyniad da

Mae cyflwyniad da yn esbonio beth fydd pwnc y traethawd. Os yw'n glir, mae darllenwr yn gwybod beth fydd y prif faterion a fydd yn cael eu trafod er mwyn ateb y cwestiwn. Gallai fod tua 10-15% o gyfanswm y geiriau (ond does dim rheol bendant am hyn).

Pethau i'w cynnwys:

- Gwybodaeth cefndir sy'n rhoi'r pwnc mewn cyd-destun.
- Eich dehongliad o'r pwnc, gan dynnu ar eich dadansoddiad o'r cwestiwn (ond peidiwch ag ailadrodd y cwestiwn).
- Amcanion y traethawd a syniad o'r strwythur (mewn rhai pynciau does dim disgwyl ichi nodi'r strwythur).
  - Defnyddiwch ferfenw i ysgrifennu'r amcanion, e.e. 'bydd y traethawd yn **canfod** y prif wahaniaethau rhwng/**dadlau** bod/**dangos** bod...'

Er bod y cyflwyniad yn ymddangos ar ddechrau'r traethawd, dyw hi ddim yn bosib bob tro rhoi darlun cywir o'r ddatl, canlyniad a'r strwythur nes ichi orffen y traethawd. Felly, dylid cynllunio a drafftio cyflwyniad wrth gychwyn a mynd yn ôl i'w olygu ar ôl cwblhau gweddill y traethawd. Bydd hyn yn sicrhau ei fod yn portreadu cynnwys y traethawd yn gywir.

#### 4. Corff y traethawd

Dyma brif ran y traethawd. Yn gyntaf, dylech chi ddarparu adolygiad o'r llenyddiaeth sy'n berthnasol i bwnc y traethawd. Gallai hyn fod un o'r canlynol (neu gymysgedd):

- Adolygiad thematig (cymharu prif syniadau a theorïau).
- Adolygiad dadleugar (*argumentative review*) (cyferbynnu gwahanol safbwyntiau damcaniaethol).
- Adolygiad hanesyddol (digwyddiadau neu gamau pwysig wrth i'r theorïau cyfredol ar y pwnc ddatblygu)
- Adolygiad cronolegol (graddfa amser y datblygiad).

Sail y traethawd yw'r adolygiad o'r llenyddiaeth. Fydd unrhyw ddadansoddiad o'r pwnc (yn ddamcaniaethol neu'n ymarferol), astudiaeth empeiraidd (*empirical investigation*) neu astudiaeth achos ddim mor gryf hebdo. Dylai trafodaeth o'r llenyddiaeth (naill ai mewn adran ar wahân neu wedi'i hymgorffori yn y traethawd drwyddi draw) fod yn 50% o gyfanswm y geiriau yng ngorff y traethawd.

Yng ngorff y traethawd byddwch chi'n creu dadansoddiad beirniadol neu asesiad ymarferol o sut mae'r egwyddor sy'n ymddangos yn y llenyddiaeth yn gweithio'n ymarferol. Bydd y dadansoddiad/asesiad yn cael ei esbonio drwy drafodaeth feirniadol, arbrawf ymarferol neu astudiaethau achos. Yn y celfyddydau a'r dyniaethau mae'n fwy cyffredin i weld dadansoddiad beirniadol ac yn y gwyddorau a'r gwyddorau cymdeithasol mae'n fwy cyffredin i weld arbrefion ymarferol ac astudiaethau achos.

#### 5. Casgliad da

Mae casgliad da yn crynhoi'r traethawd i'r darllenwr. Dylai fe grynhoi prif bwnc a chanlyniad y traethawd ond ddylai fe ddim cyflwyno syniadau newydd. Gallai'r casgliad fod hyd at 10% o gyfanswm geiriau'r traethawd. Gallech chi gynnwys:

- Crynodeb o brif bwnc y traethawd mewn perthynas â sut rydych chi wedi trafod, dadansoddi neu enghreifftio'r pwnc.
- Amlinelliad o'r canlyniad neu pam mae eich darganfyddiadau'n berthnasol.
- Argymhellion (os yn berthnasol) ar gyfer ymchwil pellach ar y pwnc neu ffyrdd i'w ddatblygu.

#### 6. Cyfeiriadau, dyfyniadau, cyfeirnodau a llyfryddiaeth

Mae cyfeirnod i da yn hanfodol mewn ysgrifennu academiaidd. Gall y gwahaniaeth rhwng arfer da ac arfer gwael fod yn fater o gyfeirnod i a chyfeirio yn gywir.

- Gwiriwch eich canllaw arddull adrannol/llawlyfr modiwl am y gofynion. Os ydych chi'n astudio mewn mwy nag un adran, mae'n bosib byddant yn defnyddio arddulliau gwahanol. Holwch yr adran os dydych chi ddim yn siŵr.
- Pan fyddwch chi'n defnyddio syniadau yn eich traethawd sy'n seiliedig ar unrhyw beth rydych chi wedi'i ddarllen, mae'n rhaid ichi gyfeirio at yr awdur a chynnwys cyfeirnod ar gyfer gwaith yr awdur yn eich llyfryddiaeth.
- Mae'n RHAID ichi wneud hyn ar gyfer popeth rydych chi'n gyfeirio ato sydd ddim yn waith eich hunain ac mae'n RHAID gwneud hyn boed ichi ddyfynnu geiriau'r awdur yn uniongyrchol neu eu haralleirio.

**Cyfeiriadau:** enw'r awdur, blwyddyn, rhif y dudalen. Gallant fod yn rhan o'ch brawddeg (cyfeiriad integrol) neu ymddangos mewn cromfachau (cyfeiriad anintegrol), neu droednodiadau. (Gwiriwch ganllaw arddull yr adran am gyngor).

- **Cyfeiriad integrol:** "Yn ôl + cyfenw'r awdur (blwyddyn: rhif y dudalen)..."
- **Cyfeiriad integrol:** "Berf (e.e. honna, dadleua, awgryma, ayyb) + cyfenw'r awdur + (blwyddyn: rhif y dudalen)..."
- **Cyfeiriad anintegrol:** "Dadleua ymchwil a ymgymerodd ag ef yn 2007 fod...(cyfenw'r awdur, blwyddyn: rhif y dudalen)"

**Dyfyniad:** mae dyfyniad yn defnyddio'n union eiriau'r awdur. Mae'n rhaid defnyddio "dyfnodau" a chynnwys cyfeiriad. Dylai dyfyniad gael ei ymgorffori yn eich brawddeg os yw'n llai na dwy linell o hyd. Os yw'n tair i bum llinell o hyd, dylech ei osod ar wahân mewn bloc testun wedi'i fewnosod un bwlch tab, e.e.

[E]ffaith diffyg defnydd gan fyfyrwr yw diffyg rhuglder proffesiynol gan ddarparwr, gan nad ydynt yn meithrin yr eirfa a'r gystrawen dechnegol drwy ymarfer.

(Huws, 2011: 15)

**Cyfeirnod:** manylion llawn adnodd cyhoeddiedig rydych chi wedi cyfeirio ato. Mae hyn yn cynnwys cyfenw'r awdur, llythrennau cyntaf ei enwau cyntaf, golygydd (os yn briodol), teitl y gwaith, is-deitl (os oes un), argraffiad os oes mwy nag un, dinas cyhoeddi a chyhoeddwr.

Mae'r enghreifftiau a ganlyn yn defnyddio'r system cyfeirnoddi Harvard. Mae systemau eraill yn cynnwys yr un wybodaeth ond mewn trefn wahanol. Bydd eich adran yn dweud pa system mae rhaid ichi ei defnyddio.

### Llyfrau

Brumfit, C. a Johnson, K. goln. (1979). *The Communicative approach to language teaching*. Rhydychen: Oxford University Press.

### Penodau mewn llyfrau wedi'u golygu

Hymes, D. (1979). On Communicative Competence. Yn Brumfit, C. a Johnson, K. goln. *The communicative approach to language teaching*. Rhydychen: Oxford University Press.

### Erthyglau mewn cyfnodolion

Huws, C.Ff.. (2011). Yr iaith Gymraeg fel model ar gyfer torri'r cylch diffyg defnydd mewn cyd-destun ieithoedd lleiafrifol. *Gwerddon* 8, 7-27.

### Gwefannau

Morkes, J. a Nielsen, J. (1997). Concise, SCANNABLE and objective: how to write for the web." [Ar-lein]. [Cyrchwyd 1/1/2000]. Ar gael: <http://www.useit.com/papers/webwriting/writing.html>.

**Llyfryddiaeth:** llyfryddiaeth yw rhestr o'r cyfeirnodau ar gyfer pob gwaith rydych chi wedi cyfeirio ato yn eich traethawd. (Ambell waith bydd yn dweud 'Cyfeiriadau' neu 'Cyfeirnodau' (*references*) yn lle llyfryddiaeth (*bibliography*). Mae'n rhaid iddi fod yn nhrefn y wyddor fesul cyfenw. Peidiwch â defnyddio pwyntiau bwled i'w threfnu.

**Y gair olaf ar gyfeirnoddi: Os nad ydych chi'n siŵr, cynhwyswch gyfeiriad.**

## 7. Ysgrifennwch yn eich geiriau eich hunan

Yn gyffredinol, mae'n well aralleirio y rhan fwyaf o'r syniadau rydych chi'n eu hysgrifennu. Mae aralleirio yn crynhoi gwaith awdur arall ac yn cysylltu eu syniadau â'ch dadl eich hunan, a phrif bwnc ac amcanion eich traethawd. Dylech chi gwestiynu sut rydych chi'n cysylltu'r syniadau hyn er mwyn osgoi eu crynhoi heb wneud cysylltiad beirniadol.

- Pethau dylech chi ddim aralleirio: cysyniadau sefydlog (*fixed concepts*), syniadau creiddiol, enwau, llefydd, dyddiadau, ayyb.
- Pethau sydd ddim yn gallu cael eu haralleirio: geiriau sy'n cael eu pennu gan reolau gramadegol, e.e. y fannod (y/yr), cysyllteiriau (a, ond), arddodiaid (mewn, ar, dan).
- Pethau dylech chi eu haralleirio: unrhyw agwedd ar fynegiant personol neu farn.

### Enghraifft:

"Technology and the internet pose complex challenges for school leaders; these challenges should not be underestimated. While the internet presents new issues to sort through and new ground to tread, it surely is here to stay. Now is the time to explore the internet's potential for meeting the educational needs of diverse groups of students and involving their parents in student achievement. And schools that take command of the internet as a tool to accomplish overriding goals, such as improving student achievement and galvanizing parental support, will benefit in the long run."

(NSBF, 2000)

### Yr un testun gyda phob enghraifft o fynegiant personol wedi'i thanlinellu:

"Technology and the internet pose complex challenges for school leaders; these challenges should not be underestimated. While the internet presents new issues to sort through and new ground to tread, it surely is here to stay. Now is the time to explore the internet's potential for meeting the educational needs of diverse groups of students and involving their parents in student achievement. And schools that take command of the internet as a tool to accomplish overriding goals, such as improving student achievement and galvanizing parental support, will benefit in the long run."

(NSBF, 2000)

### Enghraifft o aralleiriad:

Adwaen adroddiad NSBF (2000) nifer o bryderon hollbwysig parthed defnyddio'r rhyngwyd mewn addysg. Fel cyfrwng newydd ar gyfer datblygu adnoddau a dulliau addysgol, mae'r rhyngwyd yn arf werthfawr y gellir ei defnyddio i fynd i'r afael ag anghenion ystod eang o fyfyrwyr. Yn ogystal, awgryma fod modd cynnwys rhieni'n fwyfwy yn addysg eu plant, gan feithrin cyrhaeddiad gwell ymysg myfyrwyr. Bydd athrawon sy'n adnabod a chyfranogi mewn datblygu syniadau o'r fath yn cyfrannu yn gadarnhaol at safonau addysg gwell ar y cyfan, er gwaethaf wynebu rhai anawsterau i ddechrau.

## **Nodwch fod y cyfeiriad a'r newid pwyslais yn cysylltu'r gwreiddiol â dadl awdur yr aralleiriad:**

... datblygu adnoddau a dulliau addysgol

Bydd ... yn cyfrannu yn gadarnhaol at safonau addysg gwell ar y cyfan

## **8. Dyluniad, arddull cyflwyno a fformat effeithiol**

Sicrhewch fod eich gwaith yn edrych yn dda ac yn broffesiynol. Mae dylunio ac arddull cyflwyno da yn cael effaith ar y darllenwr a gallech chi gael marciau ychwanegol am hyn yn eich traethodau. Pan rydych chi wedi penderfynu ar eich dyluniad, byddwch yn gyson gyda nodweddion y dyluniad. Dylech chi sicrhau eich bod chi wedi dewis dyluniad addas. Dyma rai enghreifftiau:

### **Ffont:**

Yng nghorff y traethawd, defnyddiwch ffont *seriff*, megis Times New Roman neu Cambria (mae'n ddogfen hon wedi'i hysgrifennu mewn Cambria 11 pwynt, gydag enghreifftiau a rhestrau bwled mewn Calibri 10 pwynt). Oni bai eich bod chi wedi cael cyfwydydd i beidio, gallwch chi ysgrifennu testun mewn rhestrau bwled, diagramau, lluniau a dyfyniadau mewn blociau testun mewn ffont *sans-serif*, megis Arial neu Calibri (mae Arial yn fwy na Times New Roman, felly os ydych chi'n defnyddio Times New Roman 12 pwynt, bydd angen defnyddio Arial 10 pwynt ar gyfer diagramau, lluniau, ayyb).

### **Bylchau rhwng y llinellau:**

Os nad yw hyn yng nghanllawiau'r traethawd, mae blychau 1.5 neu 2.0 yn ddewis da. Mae hyn yn gwneud y testun yn haws i'w ddarllen ac yn galluogi'r marciwr i ysgrifennu sylwadau rhwng y llinellau.

### **Penawdau ac is-benawdau:**

Defnyddiwch y penawdau sydd ar gael o fewn Word. Gallwch newid y gosodiadau – awgrymir print trwm am benawdau ac is-benawdau a ffont 12 pwynt.

### **Print trwm ac *italig*, tanlinellu a PRIF LYTHRENNAU**

Dylech chi ddim defnyddio print trwm neu italig na thanlinellu i bwysleisio geiriau neu frawddegau. Defnyddiwch brint *italig* ar gyfer geiriau o ieithoedd eraill (e.e. Lladin,

Saesneg) yn unig. Defnyddir tanlinellu ar gyfer enghreifftiau penodol lle mae angen gwahaniaethu rhwng gwahanol eiriau yn weledol. Dylech chi osgoi prif lythrennau heblaw mewn diagramau ar gyfer resymau cyflwyno penodol.

### **Diagramau, tablau a lluniau**

Wrth ddefnyddio diagramau, tablau a lluniau, mae angen cynnwys rhif ar gyfer pob ffigwr/tabllun a theitl. Cyfeiriwch at rifau'r ffigyrau/tablluniau yn y testun wrth eu trafod. Peidiwch â'u cynnwys heb ddehongliad..

### **Atalnodi**

Edrychwch ar ganllaw arddull atalnodi. Byddwch yn gyson gyda phob agwedd ar atalnodi. Peidiwch â defnyddio ebychnodau (!) mewn ysgrifennu academaidd.

### **Sillafu a gramadeg**

Gwiriwch sillafu a gramadeg gan ddefnyddio Cysill i ddechrau. Ffodd bynnag, dyw Cysill ddim yn gallu amlygu bob camgymeriad (e.e. geiriau sy'n swno'n debyg ond gyda sillafiad gwahanol – er enghraifft, 'tonau' a 'tonnau'), felly bydd angen gwirio gyda'ch llygaid eich hunain hefyd.

### **Brawddegau a pharagraffau**

Peidiwch â defnyddio paragraffau un frawddeg. Rhowch syniadau cysylltiedig mewn paragraffau a gwnewch yn siŵr bod o leiaf dau baragraff ar bob tudalen. Mae paragraffau mewn ysgrifennu academaidd yn tueddu i fod rhwng 8-10 llinell ar gyfer paragraff byr a 15-17 llinell ar gyfer paragraff hirach. Os bydd eich paragraffau yn hirach na hyn, darllenwch nhw i weld a oes modd eu torri yn baragraffau byrrach.

### **Toriadau llinellau a pharagraffau**

Defnyddiwch yr un fformat gyfer toriad paragraff bob tro. Gallwch ddefnyddio toriad llinell llawn sy'n gadael llinell wag rhwng paragraffau neu fewnosod llinell gyntaf y paragraff newydd un tab heb adael llinell wag rhwng paragraffau. Os byddwch chi'n defnyddio toriad llinell llawn does dim angen mewnosod llinell gyntaf y paragraff newydd.

### **Drafftio, prawf-ddarllen a golygu**

Peidiwch â chyflwyno drafft cyntaf darn o waith. Mae'n debygol iawn bydd gwallau yn y dyluniad a fydd y ddadl ac arddull ddim yn gyson. Mae angen sawl drafft ar gyfer traethawd da.

---

John Morgan, 2012-2019 (addasiad Tamsin Davies, 2020). Am fwy o wybodaeth am gyrsiau ar ysgrifennu academaidd, ewch i:

<https://www.aber.ac.uk/cy/cgg/learning-teaching/sgiliauacademaiddifyfyrwyr/>  
(Cymraeg)

<https://www.aber.ac.uk/en/student-learning-support/> (Saesneg)

Mae sesiynau ymgynghorol un-wrth-un ar ysgrifennu yn Gymraeg ar gael gan y Tiwtor Sgiliau Iaith a'r Tiwtor Sgiliau Academaidd ([sgiliau@aber.ac.uk](mailto:sgiliau@aber.ac.uk)). Am ymgynghoriad un-wrth-un ar ysgrifennu yn Saesneg, cysylltwch â Chymrawd Ysgrifennu'r Gronfa Lenyddol Frenhinol (RLF) ar [writers@aber.ac.uk](mailto:writers@aber.ac.uk) am apwyntiad (cyngor ar gael yn Gymraeg neu Saesneg).